# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 07- 02 - 2014

**YN BRESENNOL:-**

**Aelodau'r Pwyllgor:-**

Y Cynghorydd Eric M. Jones, (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Angela Russell, (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Stephen Churchman, Louise Hughes, Linda Morgan, Dilwyn Morgan, Caerwyn Roberts, Gethin Glyn Williams, Eurig Wyn, Gruffydd Williams a Robert J. Wright

**Swyddogion:-** Dilwyn Williams, (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans, (Rheolwr Gwas Cyfreithiol a Gweithrediaeth), Aled Davies, (Pennaeth Rheoleiddio), Steffan Jones, (Uwch Reolwr Gwastraff a Comisiynu), William E. Jones, (Uwch Reolwr Cyllid), Steffan Owen, (Rheolwr Prosiect Gwastraff Gweddilliol gogledd Cymru), Debbie Anne Williams Jones, (Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd) ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Aelod Cabinet :-** Y Cynghorydd John Wyn Williams, (Aelod Cabinet – Cynllunio)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Annwen Hughes, Tudor Owen, Nigel Pickavance, Mike Stevens, Mandy Williams-Davies.
Y Cynghorydd W. Gareth Roberts, (Aelod Cabinet – Amgylchedd)

**Croeso -:** Estynnwyd croeso i fyfyriwr o Brifysgol Bangor fydd yn treulio diwrnod yr wythnos ar brofiad gwaith hefo'r Cyngor am gyfnod o ddeg wythnos.

**Ymddeoliad:-** Ar derfyn y cyfarfod cyfeiriodd y cadeirydd at ymddeoliad y Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu, Ioan Hughes a nododd mai hwn oedd y cyfarfod olaf o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau iddo ei fynychu. Diolchwyd iddo am ei wasanaeth a dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. Y BIL CYNLLUNIO (CYMRU) DRAFFT A CHYNLLUNIO CADARNHAOL : CYNIGION I DDIWYGIO'R SYSTEM GYNLLUNIO YNG NGHYMRU.

(a) Nododd yr Aelod Cabinet – Cynllunio fod gan y Gweinidog Tai ac Adfywio bedwar targed yn benodol sef:-

1. Sefydlu system gynllunio symlach fyddai'n haws i'r cyhoedd ymdrin â hi;
2. Sefydlu system gynllunio fyddai'n gyson drwy Gymru gyfan. (O ran hyn nododd yr Aelod Cabinet, fod system Cyngor Gwynedd yn cael cryn sylw oherwydd newidiadau cadarnhaol a wnaed);
3. Sefydlu corff cenedlaethol fyddai'n ymdrin â cheisiadau am ddatblygiadau mawr yn ogystal â chynorthwyo'r cynghorau'n unigol;
4. Cryfhau'r broses berthnasol i'r gwaith a wneir cyn i gais cynllunio gael ei gyflwyno.

(b) Nododd yr Aelod Cabinet ymhellach fod y Gweinidog yn awyddus i awdurdodau cynllunio lleol uno fel bod mwy o arbenigedd ar gael ac i ddarparu cadernid gwasanaeth. Fodd bynnag, byddai'r pwyllgorau cynllunio'n parhau ar wahân a nododd yr Aelod Cabinet

fod trefn o'r fath wedi ei hamlygu eisoes gyda'r cydweithio rhwng Gwynedd a Môn ar gyfer sefydlu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

(c) Esboniwyd bod angen ymateb i'r Ddogfen Ymgynghorol erbyn 26 Chwefror, 2014. Gwneir hyn yn enw'r Aelod Cabinet, a chyn i'r sylwadau gael eu cyflwyno cynhelir trafodaeth hefo'r Cabinet a nodwyd y byddai sylwadau aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn hefyd yn cael ystyriaeth yr Aelod Cabinet. Yn ogystal bydd modd i'r aelodau ymateb fel unigolion, pe byddent yn dymuno.

(ch) Ymhelaethodd y Pennaeth Rheoleiddio drwy gyfrwng cyflwyniad power point a nodwyd fod hwn yn gyfnod cyffrous o ran y drefn gynllunio yng Nghymru a bod cyfle euraidd i wneud y drefn yn fwy effeithiol fydd yn cefnogi amcanion cenedlaethol, lleol a chymunedol.

(d) Amlygwyd y prif bwyntiau canlynol gan y Pennaeth:-

- Bod cryn sylw wedi ei roi i'r drefn yng Nghyngor Gwynedd yn ystod y gwaith ymchwil, yn bennaf oherwydd y newidiadau a wnaed gan yr Awdurdod yn ddiweddar;
- Bod y Gweinidog yn ystyried monitro perfformiad yn fater o bwys eithriadol er sicrhau gwasanaethau da a chyson;
- Bod bwriad i geisio sefydlu pwerau i drosglwyddo dyletswyddau Awdurdodau Lleol sy'n methu perfformio i safon dderbyniol, i'r Llywodraeth yng Nghaerdydd;
- Bod y Ddogfen Ymgynghori'n tanlinellu'r angen i newid diwylliant ac i newid agweddau;
- Bod newid diwylliant yn her, ac er y bydd hyn yn cymryd amser, bod y Gweinidog am weld y newid yn digwydd yn gynt yn hytrach na hwyrach;
- Bod y materion dan ystyriaeth yn ymwneud â'r rhai sy'n dod i gysylltiad â'r system gynllunio mewn unrhyw fodd yn ogystal â'r rhai sy'n rhan o'r drefn, megis swyddogion awdurdodau lleol a chynghorwyr;
- Bod y Gweinidog yn awyddus i gyfarwyddo Awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau datblygu lleol ar y cyd, a bod Gwynedd eisoes yn gwneud hyn drwy gydweithio gydag Ynys Môn;

Pwysleisiodd y Pennaeth fod y rôl mae'r Llywodraeth yn ei osod ar gyfer eu hunain yn y broses gynllunio yn cael ei amlygu. Nododd y gellid gweld hyn fel trefn o dynnu rhai pwerau o'r lleol i'r canol. Nododd y dylid ystyried y gallai hyn fod yn briodol gyda rhai mathau o geisiadau oherwydd bod angen gorolwg cenedlaethol ond bod cwestiwn a ddylai trefniant o'r fath fod yn un eang.

Cyfeiriodd y Pennaeth ymhellach at faterion perthnasol i reolaeth datblygu gan nodi'r prif bwyntiau canlynol:-

- Bod pwyslais yn cael ei roi ar gyflwyno cyngor cyn cyflwyno cais;
- Bod sylw'n cael ei roi i bwysigrwydd ymgysylltu lleol ar ddatblygiadau mawr, ond mai cyfrifoldeb y datblygwr fyddai hyn;
- Bod awgrymiadau'n cael eu gwneud ynglŷn â'r modd y cyflwynir sylwadau gan wahanol gyrff, a nododd y Pennaeth ei fod yn ystyried hyn yn fater i'w groesawu;
- Bod Cyngor Gwynedd eisoes wedi gwneud llawer o'r newidiadau sy'n cael eu hawgrymu;
- Mai addasu ac adeiladu ar y drefn bresennol o baratoi cynlluniau datblygu lleol sydd ei angen yn hytrach na chreu trefn gwbl wahanol;
- Bod angen rhoi ystyriaeth i wir werth yr holl haenau arfaethedig o fewn y drefn gynllunio;
- Bod cyfle i foderneiddio'r drefn yn cael ei gynnig, ac y gellid hefyd gyflwyno awgrymiadau pellach wrth ymateb i'r Ddogfen Ymgynghori.
- Bod bwriad i gael y Ddeddf Gynllunio newydd yn ei lle yn ystod 2015.

(dd) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gwnaed y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod pryder y bydd hawliau'n cael eu canoli mewn perthynas â datblygiadau mawr gydag awdurdodau lleol yn colli'r hawl i gael unrhyw fewnbwn;
- Gallai'r newidiadau danseilio democratiaeth leol yn ogystal â hawliau i wneud penderfyniadau'n lleol ar geisiadau cynllunio;
- Nad oes trothwyon clir wedi eu gosod hyd yma parthed datblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd;
- Dylid datgan pryder oherwydd y byddai rhai pwerau'n aros yn Llundain yn hytrach na chael eu trosglwyddo i Gaerdydd;
- Byddai'n dderbyniol i awgrymiadau gael eu gwneud gan y Llywodraeth ond bod angen hyblygrwydd fel y byddai'r penderfyniadau'n cael eu cymryd yn lleol;
- Na ddylid anwybyddu'r sylw a roddir i'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd a led led Cymru wrth ystyried ceisiadau cynllunio;
- Dylid defnyddio'r cyfrifiad, oedd yn dangos lleihad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg, fel ffactor gynllunio bwysig;
- Er na fyddai uno'n rhesymol, gellid gweithio mwy gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;
- Bod gan y Llywodraeth eisoes bwerau i alw ceisiadau i mewn;
- Bod angen hysbysebu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad penodol hyd yn oed os yw'r dulliau o hysbysebu'n newid. Nododd y pwyllgor gefnogaeth i'r egwyddor o hysbysebu dull arwydd bost yn hytrach na chyhoeddi manylion yn llawn;

(e) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod nodwyd:-

1. Gallai fod synnwyr ymarferol i rai hawliau gael eu canoli yng Nghaerdydd, ond y gallai sefyllfa gael ei chreu pryd y byddai llawer o'r gwaith yn parhau i gael ei wneud yn lleol gyda'r ffi a'r hawl i wneud penderfyniad yn cael ei drosglwyddo i Gaerdydd;
2. Byddai llawer yn croesawu sefyllfa pryd y byddai'r hawliau sydd yn Llundain yn cael eu trosglwyddo i Gaerdydd a phopeth arall yn aros heb newid;
3. Na fyddai'r Gweinidog yn gwneud cynigion fyddai tu hwnt i ffiniau deddfwriaeth wrth lunio Bil Cynllunio;
4. Bydd yr angen i roi statws priodol i'r iaith Gymraeg yn cael ei nodi yn sylwadau'r Aelod Cabinet, ond mai o safbwynt polisïau y bydd manylder parthed yr iaith fel ystyriaeth cynllunio yn cael ei amlygu;
5. Yr awdurdod lleol sy'n talu'r costau o hysbysebu ceisiadau cynllunio a bod angen ystyried dulliau eraill o wneud hyn;
6. Bod yr Aelod Cabinet yn gweld y dadleuon dros sefydlu Arolygaeth Cynllunio i Gymru yn hytrach na pharhau gydag Arolygaeth Cymru a Lloegr.

**PENDERFYNWYD cyflwyno'r sylwadau a wnaed gan bwysleisio y dylid defnyddio'r cyfrifiad, oedd yn dangos lleihad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg fel tystiolaeth i geisio sicrhau cydnabyddiaeth statudol i'r iaith Gymraeg fel ffactor cynllunio yn y ddeddfwriaeth newydd.**

## 3. CYTUNDEB GWAREDU GWASTRAFF GWEDDILLIOL

### Ail Gytundeb Rhwng y Pum Cyngor

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet – Amgylchedd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Dilwyn Owen Williams.

(b) Tywyswyd yr aelodau'n fanwl drwy'r adroddiad a nodwyd bod strategaeth wastraff, a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2010, yn cynnwys gweithredu ar y cyd gyda 4 cyngor arall

yng ngogledd Cymru i sefydlu cyfleuster i ymdrin â gwastraff na ellir ei ailgylchu neu ei gompostio (gwastraff gweddilliol).
Bwriad y cytundeb cyntaf rhwng yr awdurdodau oedd cyrraedd pwynt pryd y byddai angen i awdurdodau'r Bartneriaeth gytuno ar benodiad cwmni i adeiladu a rhedeg cyfleuster i ymdrin â gwastraff gweddilliol. Bellach cyrhaeddwyd y pwynt yma, ac felly 'roedd angen sefydlu ail gytundeb i reoli'r berthynas rhwng yr awdurdodau gydol y 25 mlynedd pryd y bydd y cytundeb yn rhedeg.

(c) Gwahoddwyd yr aelodau i graffu'r mater cyn i'r Cabinet ei ystyried ac yn ystod y drafodaeth amlygwyd y prif bwyntiau canlynol :-

- Gweithwyr lleol fyddai'n gweithio mewn pwynt canolog fyddai'n rhedeg fel safle drosglwyddo'r gwastraff gweddilliol;
- Byddai'r gwastraff gweddilliol yn cael ei gludo o'r safle drosglwyddo i'r man lle byddai cyfleuster i ymdrin â'r gwastraff gweddilliol;
- Byddai'r contract o gludo'r gwastraff i'r cyfleuster yn sylweddol ac yn nwylo'r prosiect. Nid oes penderfyniad wedi ei wneud ynglŷn ag ymgymerwr i fod yn gyfrifol am gludo'r gwastraff;
- Bydd y prif gostau yn gysylltiedig â rhedeg y sefydliad ei hun, ac o ystyried cyflogi gweithwyr lleol, bydd y sefydliad y tu hwnt i ffiniau Gwynedd;
- O ystyried yr angen i'r prosiect gwrdd â chost sefydlu safle drosglwyddo ar gyfer Conwy, dylid cofio fod y prosiect yn brosiect ar-y - cyd gyda phob Cyngor mewn sefyllfa wahanol ac yn cael cymorth mewn gwahanol ffyrdd.
- Enghraifft o'r uchod yw'r ffaith bod y pellter yn golygu fod costau cludo'r gwastraff yn uchel yng Ngwynedd ond nad yw'r ffi y dunnell yn amrywio rhwng y naill Gyngor a'r llall;
- Bod ymholiadau wedi eu gwneud ynglŷn â chael caniatâd cynllunio ar gyfer y cyfleuster, a bod y safle wedi ei ddynodi ar gyfer diwydiant trwm. Yn ogystal, cafwyd gwybodaeth y byddai'r cais yn bur debygol o lwyddo ar apêl, pe byddai angen.
- Bod y Llywodraeth yn ganolog yn debygol o fynd ar ôl y math yma o ddarpariaeth;
- Ar derfyn y cytundeb, fyddai'n ymestyn dros 25 mlynedd, gellid dadgomisiynu'r safle gyda'r partneriaid yn rhannu'r gost. Byddai'r trefniadau'n amrywio pe byddai'r safle'n parha'n weithredol;
- Disgwylir i'r gost o ddadgomisiynu'r safle fod rhwng £1miliwn a £1½ miliwn;
- Bod gan y cyfleuster y capasiti ar gyfer ymdrin â chynnydd yn y gwastraff gweddilliol;
- Bod angen pwyso a mesur risgiau, ond bod angen gwyrdroad sylweddol cyn y byddai'r gwastraff yn lleihau;
- Bod y cyfleuster wedi ei ddylunio i barhau am 60 mlynedd a gallai'r Cyngor ymestyn y cytundeb ar derfyn y 25 mlynedd wreiddiol pe byddent yn dymuno gwneud hynny;
- Bod gwaith trylwyr wedi ei wneud o ran y dulliau gorau o waredu gwastraff ac o ailgylchu ac o annog trigolion Gwynedd i ailgylchu gwastraff;
- Bod camau wedi eu cymryd i sicrhau safonau sy'n mynd hyd yn oed ymhellach na gofynion Asiantaeth Gwarchod Iechyd;
- Bydd angen i'r cwmni gael Trwydded Amgylcheddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru cyn gweithredu'r cyfleuster;
- Bydd defnydd yn cael ei wneud o'r gweddillion yn dilyn y broses o losgi'r gwastraff gweddilliol a bydd hyn yn cyfrannu tua 7% tuag at lefel ailgylchu'r awdurdodau;
- Ni fydd unrhyw wastraff niweidiol yn cael ei waredu yn y cyfleuster;

**PENDERFYNWYD argymell bod y Cabinet yn derbyn ail gytundeb rhwng yr awdurdodau fel y gellir parhau â'r prosiect cydweithio.**

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i**

**diffinnir ym mharagraffau 14 ac 18 A, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r adroddiad yn ymwneud â chanlyniadau proses gaffel a phenodi ymgymerwr o ganlyniad. Ymdrinnir â materion masnachol sensitif yn yr adroddiad megis prisiau ac amodau yn deillio o broses gystadleuol. Mae gwybodaeth o'r fath a gyflwynwyd yn y broses ynglŷn â busnes yr ymgeiswyr ac yn fasnachol sensitif. Mae hefyd yn ddarostyngedig i ymrwymiadau ynglŷn â chyfrinacholdeb.**

**Er bod budd cyhoeddus mewn cael dealltwriaeth ynglŷn â materion gwariant cyhoeddus a chytundebau mewn meysydd megis rheoli gwastraff mae angen cloriannu hyn yn erbyn diddordeb cyhoeddus yr awdurdod wrth sicrhau hyder ymgeiswyr i ymgeisio am gytundebau heb bryderu y bydd gwybodaeth fasnachol sensitif all fod o fudd uniongyrchol i gystadleuwyr eraill yn y farchnad wastraff yn cael ei gyhoeddi. Gall methu a darparu'r fath sicrwydd danseilio hyder ymgymerwyr sydd am geisio am waith ac felly lleihau cystadleuaeth. Mae hefyd yn berthnasol nad yw'r broses benodi yn sgil yr ymarfer caffel wedi ei gwblhau. Oherwydd hyn gorwedd y budd cyhoeddus o blaid eithrio'r wasg a'r cyhoedd.**

**5. CYTUNDEB GWAREDU GWASTRAFF GWEDDILLIOL**

**Dewis Ymgymerwyr i Gyflawni'r Gwasanaeth**

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet – Amgylchedd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Dilwyn Williams.

(b) Cadarnhawyd bod trefn safonol wedi ei dilyn i gyrraedd y sefyllfa bresennol.

(ch) Pan benderfynwyd lleihau nifer y cwmnïau fyddai'n cael eu gwahodd i gynnig tendrau terfynol i ddau, tynnodd un cwmni yn ôl. Pwysleisiwyd bod ystyriaeth ddwys a thrylwyr wedi ei roi gan y Cydbwyllgor p'un ai i fynd ymlaen gydag un cwmni ai peidio.
Penderfynwyd mai parhau fyddai orau gan wahodd tendr terfynol gan yr un cwmni.

(d) Gwahoddwyd yr aelodau i graffu'r sefyllfa cyn i'r mater gael ei ystyried gan y Cabinet.

(dd) Mynegwyd pryder gan aelodau oherwydd mai un cwmni oedd yn weddill i gyflwyno tendr terfynol.

**PENDERFYNWYD:-**
**a) Bod y Pwyllgor Craffu hwn yn datgan eu cefnogaeth i'r Bartneriaeth, sy'n cynnwys chwe Awdurdod Lleol gogledd Cymru, a bod ffydd ganddynt yn y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Bartneriaeth mewn perthynas â chomisiynu ymgymerwr i ymdrin â gwastraff gweddilliol y cynghorau.**
**b) Bod y Pwyllgor Craffu hwn yn datgan eu bod yn anghyfforddus oherwydd mai dim ond un cwmni a wahoddwyd i gyflwyno tendr terfynol, ond eu bod yn derbyn fod yn rhaid symud ymlaen ar sail argymhelliad y Cydbwyllgor.**

Nodwyd bod y Cynghorwyr Louise Hughes a Gruffydd Williams wedi pleidleisio yn erbyn y penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 4.55pm